Adran 1

Dywed Ephgrave (2020) mae sawl ffurf o chwarae yn y blynyddoedd cynnar sy'n effeithio ar ddatblygiad iach plant, yn cynnwys:

Chwarae corfforol: chwarae symud sy'n cryfhau'r corff ac yn datblygu sgiliau echddygol bras.

Chwarae dramatig: chwarae dychmygus sy'n cynnwys adrodd straeon a chreu naratif ar y cyd.

Chwarae synhwyraidd: chwarae sy'n ysgogi'r synhwyrau ac yn gwella dysgu ac archwilio.

Chwarae natur: chwarae sy'n cysylltu plant â'r amgylchedd naturiol ac yn meithrin chwilfrydedd a chreadigedd.

Chwarae cerddoriaeth a chelf: chwarae sy'n mynegi emosiynau a syniadau trwy seiniau a delweddau.

Chwarae symbolaidd: chwarae sy'n defnyddio gwrthrychau, gweithredoedd, neu syniadau i gynrychioli pethau eraill.

Ymarfer chwarae: chwarae sy'n ailadrodd sgiliau neu ymddygiadau i'w gwella.

Gemau gyda rheolau: chwarae sy'n dilyn rheolau a nodau y cytunwyd arnynt.

Chwarae adeiladol: chwarae sy'n cynnwys adeiladu neu i greu rhywbeth. Yn ychwanegol at Ephgrave mae Bottrill (2018) Aminpour, Bishop and Corkery (2020) yn cytuno gyda'r uchod.

Gall plant ddewis i chwarae yn unigol, neu yn gyfochrog, cysylltiadol a chydweithredol: Dyma'r pedwar cam cymdeithasol o ffordd chwarae sy'n disgrifio sut mae plant yn rhyngweithio ag eraill yn ystod chwarae yn ôl Bruce (2011).

Mae chwarae yn ffordd naturiol a phleserus i blant gadw'n heini, aros yn iach a bod yn hapus. Mae chwarae rhydd yn helpu datblygiad iach plant. Yn ôl Smidt (2011)) er mwyn cael iechyd corfforol a meddyliol da ac i ddysgu sgiliau bywyd, mae angen amrywiaeth o gyfleoedd chwarae distrwythur arnynt o'u genedigaeth nes eu bod yn eu harddegau hefyd noda Elkind (2008).

Awgryma Smidt (2011) chwarae rhydd yw pan fydd plentyn yn penderfynu ac yn rheoli ei chwarae gan ddilyn ei greddf, ei ddychymyg a'i ddiddordebau ei hun. Maent yn chwarae heb gael eu harwain gan oedolion. Mae MacDonald (2024) yn credu mai plant sydd wedi'u cymell yn gynhenid i chwarae, y plant sy'n dewis eu gweithgaredd eu hunain drostynt eu hunain. Mae nhw eisiau chwarae yn hytrach na chael gwybod i wneud hynny gyda rhyw fath o wobr yn aros ar ôl iddynt orffen.
Does dim ffordd gywir nac anghywir o chwarae hawlia Aminpour et al., (2020).

Mae caniatáu i blant ddewis eu gweithgareddau chwarae yn hanfodol gan ei fod yn meithrin annibyniaeth, creadigrwydd a sgiliau gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn cyfrannu at eu datblygiad emosiynol trwy roi ymdeimlad o reolaeth ac ymreolaeth iddynt yn eu gweithredoedd noda Bruce (2011). Mae plant yn dysgu wrth wneud yn hytrach na chlywed a gwrando amdanynt a dyma theori Piaget yn ôl Aubrey a Riley (2022).
Mae plant sy'n dewis chwarae eu hunain yn hybu ymreolaeth, gwneud penderfyniadau, a chymhelliant cynhenid, gan wella eu datblygiad gwybyddol ac emosiynol. Mae amrywiaeth o fathau o chwarae, gan gynnwys chwarae hunangyfeiried, yn hanfodol ar gyfer datblygiad cyfannol. Mae chwarae hunangyfeiried yn meithrin annibyniaeth, creadigrwydd, a sgiliau datrys problemau, tra bod profiadau chwarae amrywiol yn cyfrannu at ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol (Smidt, 2011).
Yn ôl Aubrey a Riley (2022) dechreuodd y ddamcaniaeth arsylwi gyda Banura, credai fod plant yn dysgu'r eu hamgylchedd trwy arsylwi, dynwared a modelu.

Mae dull addysg Montessori yn ddull anhraddodiadol o ddysgu sy'n canolbwyntio ar feithrin ymdeimlad o annibyniaeth a datblygiad personol yn yr ystafell ddosbarth. (Courtier *et al.*, 2021). Mae Dereli İman et al., (2019) yn credu bod canolbwyntio ar ddull yma sy'n cael ei arwain gan y plentyn sy'n annog datblygiad cyfannol. Enghreifftiau o weithgareddau yn y blynyddoedd cynnar yw chwarae dychmygus trwy smalio bod yn gymeriadau gwahanol neu gymryd rolau amrywiol. Gallent chwarae tŷ, actio golygfa, neu'n esgus bod yn feddyg, mae chwarae rôl yn meithrin creadigrwydd a sgiliau cymdeithasol. Mae ystafelloedd dosbarth Montessori yn ol Courtier *et al.*, (2021). Yn aml yn cynnwys offerynnau cerdd. Gall plant arbrofi gyda

synau, rhythmau ac alawon, gan wella eu canfyddiad clywedol a'u sgiliau echddygol. Mae creu cerddoriaeth eu hunain yn dod yn antur gyffrous, sy'n helpu codi hyder, mae'r plant yn gallu actio neu ganu o flaen ei ffrindiau mae hynny'n rhoi teimlad o fod yn falch o'u cyflawniadau eu hunain ac yn deilwng ohonynt eu hunain. Creda Courtier *et al.*, (2021) hefyd y pwyslais o ganu hwiangerddi cyfarwydd sydd nid yn unig yn dod â llawenydd ond hefyd i gefnogi datblygiad iaith. Mae plant yn dysgu geiriau, rhythmau a phatrymau newydd trwy'r alawon hyfryd hyn. At hynny, mae symud yn hanfodol i ddysgwyr ifanc. Mae caneuon actol a dawnsio yn galluogi plant i fynegi eu hunain yn gorfforol, gwella cydsymud, a chael hwyl wrth ddysgu. Mae'r ymdrechion creadigol hyn yn annog sgiliau echddygol manwl, hunanfynegiant, a gwerthfawrogiad o estheteg.

Hawlia Aminpour, Bishop and Corkery, (2020) bod chwarae hunan cyfeiriedig yn cynnwys gweithgareddau fel darllen llyfrau a chreu straeon yn eu dychymyg, creu straeon o luniau neu ail ddweud stori y maent wedi'i dysgu a'i mwynhau. Trwy'r ffordd yma o chwarae mae plant yn adeiladu ar eu sgiliau iaith, maent yn dysgu am y byd o gwmpas ac maent yn dysgu empathi ac ymwybyddiaeth o emosiwn.

Mae Chwarae gyda blociau, neu Lego a defnyddio dychymig i greu pethau diddorol ac mae Aminpour, Bishop and Corkery (2020) yn dweud trwy'r math yma o chwarae y mae plant yn datblygu eu sgiliau dychmygus gan eu bod yn gallu creu a gwneud pethau mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, mae'n gwella eu sgiliau mathemateg gan eu bod yn gallu cyfrif y blociau, chwarae ac arbrofi gyda siapiau, gallant ddilyn patrymau gyda blociau lego a datblygu sgiliau iaith gyda chyfleoedd defnyddio geirfa newydd , yn yr ysgol Cymraeg bwydo geiriau newydd Cymraeg yn ystod chwarae yn ôl (llywodraeth Cymru, 2020).

Trwy chwarae, mae plant yn dysgu am y byd ac am eu hunain yn ôl Brown (2012). Maent hefyd yn dysgu sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudio a pherthnasoedd fel: hyder hunan-barch, gwytnwch rhyngweithio, sgiliau cymdeithasol, annibyniaeth chwilfrydedd ac ymdopi â sefyllfaoedd heriol.
Gall chwarae helpu plant i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol gydag eraill. Trwy wrando, talu sylw a rhannu profiadau chwarae, mae hyn yn helpu plentyn i: archwilio

eu teimladau, datblygu hunanddisgyblaeth dysgu sut i fynegi eu hunain gweithio allan agweddau emosiynol bywyd (Brown, 2012 a Bottrill, 2018).

Cefnogir pa fath bynnag o chwarae y mae plentyn yn penderfynu chwarae ei ddatblygiad cyfannol. Mae chwarae hunangyfeiriedig yn agor cymaint o gyfleoedd dysgu i blant yn ôl Chwarae Cymru (2022). Mae gan blant yr hawl i chwarae mae Unicef (1989) yn dweud ac mae plant yn dysgu trwy chwarae ac (Ephgrave, 2020) yn cefnogi'r datganiad hwn.

Adran 2.

Yn ôl Llywodraeth Cymru yn y curriculum Newydd 'A curriculum for funded non-maintained nursery settings' (2022) Mae oedolion yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi chwarae plant trwy ddarparu amgylchedd diogel ac ysgogol, cynnig adnoddau, ac arsylwi heb ddominyddu yn ôl Patte (2013). Gall oedolion annog chwarae hunan cyfeiriedig trwy ddarparu teganau penagored, mannau awyr agored credaf Bilton (2010) a chaniatáu amser anstrwythuredig. Mae chwarae, yn gyffredinol, yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol. Mae chwarae hunangyfeiriedig yn benodol yn meithrin creadigrwydd, datrys problemau, ac annibyniaeth, gan baratoi plant ar gyfer dysgu gydol oes. Rôl yr oedolion yn ôl Brown (2013) yw cynnig anogaeth a bod yn ymatebol i syniadau a diddordebau plant. Gallant hefyd sgaffaldio chwarae, hwn oedd damcaniaeth Vygosky's i helpu plant i ehangu eu dysgu ac archwilio. (Brown a Patte, 2013) a (Aubrey and Riley, 2022).

Mae Kingston a Siraj (2017) yn credu bod cefnogi chwarae plant yn golygu deall a hwyluso gwahanol fathau o chwarae. Dau brif fath yw chwarae strwythuredig, sy'n cynnwys gweithgareddau yn ôl Lai *et al.*, (2018) o gemau wedi'u trefnu, a chwarae anstrwythuredig, lle mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhydd a llawn dychymyg.

Yn ôl Kingston a Siraj (2017) mae effaith cyfranogiad oedolion ar chwarae plant yn adlewyrchu yn eu datblygiad gwybyddol ac emosiynol. Mae rôl oedolyn mewn chwarae yn un bwysig ac amrywiol. Yn aml yn newid o gyfathrebwr, rhoddwr gofal, hwylusydd a sylwedydd. Gwaith yr oedolyn yn ôl McInnes *et al.*, (2010) yw gwrando

go iawn ar blentyn, datblygu ymddiriedaeth, helpu i oresgyn anawsterau, dangos diddordeb gwirioneddol a chymryd amser i adeiladu perthnasoedd ystyrlon. Mae'n bwysig edrych am y ciwiau fel oedolyn i gael gwahoddiad i ymuno yn y chwarae, y munud mae oedolyn yn ymuno yn y chwarae ac yn awgrymu syniad, neu yn torri ar draws y plentyn dyna'r amser mae'r chwarae i'r plentyn wedi dod i ben. Yr oedolyn sydd wedi cymryd drosto sef llygredigaeth mewn chwarae (adulteration) ac nid chwarae yw hwn yn ôl sut mae'r plentyn yn teimlo yn ôl Bottrill (2018).

(Aminpour, Bishop and Corkery, 2020). Mae athrawon yn hynod hyblyg yn eu rolau yn ôl Ephgrave (2020) pan fydd plant yn hapus ac wedi ymgolli mewn chwarae, gellir newid cynlluniau a gellir parhau i chwarae a gwella dros sawl diwrnod yn ôl Brown and Patte (2013) weithiau rôl oedolion yw arsylwi chwarae, rhoi gwên neu amnaid, mae gosod y cefndir ar gyfer chwarae neu'n gwneud awgrymiadau. Ar adegau mae rhaid bod yn gyd-chwaraewr, sgiliau modelu a rhyngweithio cadarnhaol ac weithiau mae angen cyfeirio chwarae i ganolbwyntio ar gyfleoedd dysgu penodol (Smidt, 2011). Pan fydd plant yn cael anhawster i ddechrau neu pan fydd chwarae'n dechrau ildio, bydd' rhaid cyfoethogi ac ymestyn syniadau, gan roi awgrymiadau neu arddangosiadau uniongyrchol. Mae perthnasoedd cynnes, cadarnhaol yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad a lefel hyder plant. Mae cymryd yr amser i ddod yn bartneriaid chwarae gyda'n dosbarthiadau yn hynod werthfawr. Trwy ryngweithiadau medrus gydag ymarferwyr sydd wir yn helpu i ysbrydoli plant, i sicrhau cynnydd a dysgu i symud ymlaen fel awgrymwyd gan y Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen (2015) a ('Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir' (dim dyddiad). Mae angen digon o gyfleoedd ar blant dwedodd McInnes *et al.*, (2010) i archwilio, arsylwi ac ail-greu profiadau, gan ddewis yn rhydd adnoddau i gyfoethogi eu chwarae. Gellir darparu gwrthrychau diddorol y gall plant eu harchwilio yn eu ffordd eu hunain heb ymyrraeth oedolyn.

Ar adegau, mae Broadhead, Howard and Wood (2010) yn credo bod angen i oedolion fynd i ysbryd chwarae gyda'u disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r oedolyn i hwyluso, sgaffaldio a chefnogi chwarae mewn ffordd nad yw'n bosibl o bell. Weithiau mae oedolion yn gweld hi'n anodd ymuno â chwarae dychmygus ond pan maent yn gwneud hynny, mae'n gallu dangos i blant ein bod yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r

hyn sydd yn bwysig iddynt. Mae'n gyfle yn dod i adnabod ein plant yn well ac yn deall eu profiadau. Pan fyddwn yn cydweithio gyda’n disgyblion, rydym yn adeiladu perthnasau gofalgar trwy annog plant i fentro, profi llwyddiant a datblygu gwydnwch yn ôl Ephgrave (2020) .

Nod astudiaethau Howard a Mcinnes (2012) oedd ymchwilio i'r berthynas rhwng chwarae a lles emosiynol plant. Canfu Howard a Mcinnes (2012) pan fydd plant yn gweld gweithgaredd fel chwarae, maent yn dangos mwy o arwyddion o les emosiynol i gymharu â phan fyddant yn gweld yr un gweithgaredd fel dim chwarae. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 129 o blant rhwng 3 a 5 oed. Defnyddiodd yr ymchwilwyr giwiau y mae plant yn eu defnyddio i wahaniaethu rhwng chwarae ac nid chwarae i greu dwy sesiwn gweithgaredd: un oedd 'fel chwarae' ac un oedd 'ddim yn chwarae'. Arhosodd y gweithgaredd ei hun yr un fath ar gyfer y ddwy sesiwn. Neilltuwyd y plant ar hap i gymryd rhan naill ai yn y sesiwn 'chwarae tebyg' neu 'ddim yn chwarae', a mesurwyd eu lles emosiynol gan ddefnyddio graddfa ymgyfraniad Leuvens. Dangosodd y canlyniadau wahaniaeth sylweddol yn lefel y llesiant emosiynol a ddangoswyd gan blant yn y ddau fath o sesiwn gweithgaredd, yn ôl Howard a Mcinnes (2012).
Sgoriodd plant a gymerodd ran yn y gweithgaredd 'chwarae tebyg' gryn dipyn yn uwch mewn lles emosiynol o gymharu â'r rhai a gymerodd ran yn y gweithgaredd 'ddim yn chwarae'. Canfu Howard a Mcinnes (2012) fod dadansoddiad arsylwadol manwl hefyd wedi datgelu dangosyddion ymddygiad uwch yn ymwneud â llesiant emosiynol ymhlith plant yn y sesiwn ‘chwarae tebyg’. I gloi, mae’r astudiaeth hon yn darparu tystiolaeth bod plant yn profi lles emosiynol cynyddol pan fyddant yn gweld gweithgaredd fel chwarae yn hytrach na chwarae yn ôl canfyddiadau thystiolaeth Howard a Mcinnes (2012).

Adran 3.

Mae gwahanol fathau o asesu yn y blynyddoedd cynnar, un yw Proffil y Cyfnod Sylfaen sy’n arf asesu gwerthfawr a ddefnyddir yng Nghymru i werthuso dysgu a datblygiad plant yn ystod eu cyfnod yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn ôl Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen (2015) prif ddiben Proffil y Cyfnod Sylfaen yw sefydlu asesiad sylfaenol sy'n gyson yn genedlaethol sy'n cyd-fynd â chanlyniadau diwedd cyfnod. Mae'n helpu ymarferwyr i greu cwricwlwm cyfannol sy'n briodol i'w ddatblygiad ar gyfer pob plentyn trwy ddefnyddio arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol. Mae'r proffil yn asesu galluoedd a datblygiad plant mewn pedwar Maes Dysgu allweddol sef Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles, ac Amrywiaeth Ddiwylliannol Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Datblygiad Mathemategol Datblygiad Corfforol. Mae arsylwi yn chwarae rhan hanfodol mewn arfer bob dydd o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol i adeiladu darlun cyfannol o ddatblygiad a galluoedd plant yn y meysydd allweddol hyn.

Daeth Proffil y Cyfnod Sylfaen yn statudol yng Nghymru o fis Medi 2015.Mae'n sicrhau bod pob plentyn yn cael profiad asesu cyson o'r dechrau hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen, 2015).

Er bod manteision i asesiadau cynhwysfawr yn y Cyfnod Sylfaen, mae yna hefyd gyfyngiadau a heriau i ymarferwyr eu hwynebu yn ôl Llywodraeth Cymru (2017). Er bod yr arsylwadau a'r asesiadau'n cwmpasu meysydd lluosog, efallai y bydd tuedd o hyd tuag at agweddau academaidd neu wybyddol, gan esgeuluso rhai agweddau ar ddatblygiad cyfannol o bosib. Mae'n bosib nad yw'n dal cyd-destun llawn galluoedd ac ymddygiadau plentyn fel y mae'n gweithredu o fewn strwythur penodol, a allai golli ymddygiadau digymell neu gyd-destun penodol (Sharman, Cross a Vennis, 2015).

Mae Arsylwadau Proffil y Cyfnod Sylfaen, gan eu bod yn seiliedig ar raddfa, yn tueddu i ganolbwyntio ar feysydd datblygiadol penodol. Er eu bod yn cynnig ymagwedd strwythuredig a systematig, y risg yw efallai na fyddant yn dal y golwg cyfannol o alluoedd, diddordebau a chryfderau plentyn yn llawn. Gall cynnal a dadansoddi'r arsylwadau hyn gymryd llawer o amser, gan ei gwneud yn heriol i athrawon integreiddio i arferion dyddiol yr ystafell ddosbarth (Kingston a Siraj, 2017). Fodd bynnag, gall nodi meysydd i'w gwella, helpu i nodi meysydd penodol lle gallai fod angen cymorth ychwanegol ar blentyn neu lle gallai fod angen atgyfeiriadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac ymyriadau ychwanegol posibl ar blentyn sef awgrym y Llywodraeth Cymru (2017) tra bod Arsylwadau Proffil y

Cyfnod Sylfaen yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i ddatblygiad plentyn, gall cydbwyso ei ddull strwythuredig â dulliau arsylwi eraill, mwy hyblyg gyfrannu at ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o ddatblygiad cyfannol plentyn (Sharman, Cross a Vennis, 2015).

Yn ôl y cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) mae angen i'r arsylwi cymryd sylw, dadansoddi, ac ymateb. Dylai'r asesiad fod yn ddefnyddiol, yn hylaw ac yn bwrpasol a dylid ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio gweithgareddau a chynllunio amgylcheddau effeithiol sy'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru (dim dyddiad).

Adran 4

Mae chwarae'n ennyn diddordeb plant ar draws peuoedd gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol, gan ddarparu golwg gyfannol o'u galluoedd a'u hymddygiad (Brown, 2012). Mae Sharman, Cross a Vennis (2015)) yn awgrymu bod plant, trwy chwarae, yn mynegi eu hunain yn ddilys, gan ganiatáu i arsylwyr weld eu diddordebau gwirioneddol, creadigrwydd, a sgiliau datrys problemau.

Mae arsylwi plant yn chwarae yn rhoi darlun mwy dilys o'u cynnydd datblygiadol, gan hyrwyddo asesu cywir (Sharman, Cross a Vennis, 2015). Mae plant yn aml yn dangos eu gwir alluoedd yn ystod chwarae, gan arddangos sgiliau ac ymddygiadau nad ydynt efallai'n dod i'r amlwg mewn lleoliadau mwy ffurfiol.

Mae arsylwi chwarae yn darparu cyd-destun ar gyfer ymddygiadau, gan helpu i wahaniaethu rhwng gweithredoedd ennyd a phatrymau cyson. Mae patrymau a welir mewn ymddygiad chwarae dros amser yn rhoi cipolwg ar gryfderau cyson, heriau, a thaflwybr datblygiadol plentyn (Bruce, Louis a McCall, 2015).

Pan fydd plant yn chwarae'n ddychmygus mae'n helpu i ddeall diddordebau'r plant a'u persbectif a'u barn ar sut maen nhw'n gweld y byd o'u cwmpas sydd wedyn yn helpu i ddarparu adnoddau sydd o ddiddordeb iddyn nhw gan ganiatáu hyd yn oed mwy o ddatblygiad a chyfleoedd i hybu eu dysgu trwy ffordd maen nhw'n ei fwynhau a thrwy weithgareddau a ddewiswyd ganddynt hwy ac nid yr oedolion. Profwyd bod y math hwn o chwarae yn fwy effeithiol ac yn rhoi asesiad

mwy cywir yn ystod arsylwadau (Bottrill, 2018). Mae pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymder ei hun, nid yw'n ras. Mae angen dealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn ar ymarferwyr a dealltwriaeth dda o unigrywiaeth unigol pob plentyn a dathlu eu cyflawniadau pan fydd yn digwydd (Kingston a Siraj, 2017).

Rôl yr oedolyn yn ôl Bottrill (2018) yn ystod chwarae pan ddaw i arsylwadau ac asesiadau yw trwy greu amgylcheddau chwareus, ysgogol diogel sy’n gyfoethog mewn deunyddiau chwarae amrywiol, gan annog plant i archwilio a mynegi eu hunain. Gall oedolion annog chwarae hunangyfeiriedig trwy ddarparu teganau penagored, mannau awyr agored, a chaniatáu amser anstrwythuredig. Mae gweithgareddau chwareus yn darparu golwg gyfannol o alluoedd plentyn, gan alluogi addysgwyr i gynnal asesiadau mwy cywir trwy ystyried ymatebion, hoffterau, a chynnydd datblygiadol plentyn o fewn cyd-destun naturiol heb bwysau (Aminpour, Bishop a Corkery, 2020).

Mae arsylwi chwarae mewn cyd-destunau amrywiol yn caniatáu ar gyfer nodi cerrig milltir ddatblygiadol yn fwy cyson, gan atgyfnerthu cywirdeb yr asesiadau a awgrymwyd gan (Bruce, Louis a McCall, 2015).

Gall chwarae gael ei ddylanwadu gan ffactorau amrywiol, gan ei gwneud yn hanfodol ystyried y cyd-destun a'r ffactorau allanol posibl sy'n effeithio ar ymddygiad plentyn. Mae deall a pharchu amrywiadau diwylliannol mewn chwarae yn hollbwysig er mwyn osgoi camddehongli (Ephgrave, 2020).

Mae defnyddio dulliau fel naratif chwarae, ffotograffau, neu fideos i ddal a dogfennu episodau chwarae yn ogystal â chynorthwyo gyda dadansoddiad trwy ddefnyddio offer fel holiaduron cryfderau, anawsterau OGS a graddfa Leuven yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i gynnydd datblygiadol y plentyn a gall arwain cymorth ac ymyriad yn y dyfodol (Ephgrave, 2020).

Mae chwarae yn arf pwerus ar gyfer arsylwadau ac asesiadau cywir gan ei fod yn manteisio ar agweddau amrywiol ar ddatblygiad plentyn. I gefnogi’r broses hon, dylai oedolion greu amgylchedd chwarae gyfeillgar, arsylwi heb ymyrraeth, a dogfennu episodau chwarae. Mae cydnabod cymhlethdodau chwarae ac ystyried cyd-destunau diwylliannol yn cyfrannu at ddealltwriaeth fwy cynnil o gynnydd datblygiadol plentyn (Sharman, Cross a Vennis, 2015).

Mae chwarae plant yn chwarae rhan arwyddocaol yn eu datblygiad emosiynol, gan fod Freud yn credu y gallai helpu i brosesu atgofion a thrawma. Pwysleisiodd Vygotsky bwysigrwydd cefnogaeth oedolion mewn chwarae plant ar gyfer datblygiad gwybyddol. Mae angen amser ar blant i feistroli sgiliau cyn symud ymlaen i'r cam datblygiadol nesaf. Tynnodd Erikson a Parten sylw hefyd at bwysigrwydd chwarae mewn datblygiad (Aubrey a Riley, 2022) a (Feud, 2024)

Yn ôl adroddiad Howard a McInnes (2013) mae’r astudiaeth yn archwilio rhyngweithiadau oedolyn i blentyn mewn dau leoliad blynyddoedd cynnar. Yn gyntaf, lle’r oedd plant yn defnyddio ciw presenoldeb oedolion i wahaniaethu chwarae neu dim chwarae yn ail, lle nad oedd oedolyn yn bresennol. Buodd yr adroddiad yn arsylwi ar wahaniaethau mewn defnydd iaith, gyda chwestiynau mwy agored a chychwyn ar y cyd i ryngweithio yn y lleoliad lle nad oedd plant yn defnyddio'r ciw. Roedd plant yn y lleoliad hwn yn fwy tebygol o weld yr oedolyn yn chwareus. Mewn cyferbyniad, yn y lleoliad lle'r oedd plant yn defnyddio'r awgrym o bresenoldeb oedolion, roedd gan oedolion fwy o reolaeth dros ryngweithio a defnyddio cwestiynau mwy caeedig.I gloi, nod yr astudiaeth oedd deall sut mae presenoldeb oedolion yn effeithio ar ganfyddiadau plant o chwarae a dysgu. (Howard a McInnes, 2013).

A curriculum for funded non-maintained nursery settings (no date). Available at: https://hwb.gov.wales/api/storage/b1801d78-38c3-4320-9818- (Accessed: 1 February 2024).

Aubrey, K. Riley, A. (2022) *Understanding and using educational theories*. 3rd edition. Thousand Oaks: SAGE Publications.

Bilton, H. (2010) *Outdoor learning in the early years: management and innovation*. 3rd ed. New York: Routledge.

Bottrill, G. (2018) *Can I go & play now?: rethinking the early years*. Los Angeles: SAGE.

Broadhead, P., Howard, J.Wood, E. (2010) *Play and learning in the early years: from research to practice*. Los Angeles (Calif.): Sage.

Courtier, P. *et al.* (2021) 'Effects of Montessori Education on the Academic, Cognitive, and Social Development of Disadvantaged Preschoolers: A Randomized Controlled Study in the French Public-School System', *Child Development*, 92(5), pp. 2069-2088. Available at: https://doi.org/10.1111/cdev.13575.

Ephgrave, A. (2020) *Planning in the moment with two and three year olds: child-initiated play in action*. London New York, NY: Routledge, Taylor & Francis Group.

Government, W. (no date) 'The new Curriculum for Wales - An easy read guide for young people'.

Kingston, D. Siraj, I. (2017) 'Supporting the Implementation of the Foundation Phase through Effective Professional Development', *Cylchgrawn Addysg Cymru / Wales Journal of Education*, 19(1), pp. 39-68. Available at: https://doi.org/10.16922/wje.19.1.3.

Lai, N.K. *et al.* (2018) 'The impact of play on child development - a literature review', *European Early Childhood Education Research Journal*, 26(5), pp. 625-643. Available at: https://doi.org/10.1080/1350293X.2018.1522479.

Smidt, S. (2011) *Playing to learn: the role of play in the early years*. London ; New York: Routledge.

UNICEF (1989). *UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC)*. Available at: https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/. (Accessed: 1 February 2024).

Welsh Government (2015) *Foundation Phase Framework.* Available at: https://hwb.gov.wales/storage/d5d8e39c-b534-40cb-a3f5-7e2e126d8077/foundation-phase-framework.pdf (Accessed:12 February 2024).

Welsh Government (2017) *Foundation Phase Profile*. Available at: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/foundation-phase-profile-handbook-revised-september-2017.pdf (Accessed: 11 February 2024).

Welsh Government (no date) 'The new Curriculum for Wales - An easy read guide for young people'.